

**Arolygiad o dan Adran 28  
Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn**

**Ysgol Bro Ingli  
Heol Hir  
Trefdraeth  
Sir Benfro  
SA42 0TL**

**Rhif yr Ysgol: 6682243**

**Dyddiad yr Arolygiad: 21 Ebrill 2008**

**gan**

**Dorothy Morris  
16211**

**Dyddiad Cyhoeddi: 25 Mehefin 2008**

**O dan rif contract Estyn: 1121107**

**® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2008: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Bro Ingli fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Bro Ingli rhwng 21/04/2008 a 23/04/2008, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Dorothy Morris. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	da gyda nodweddion rhagorol
<b>Gradd 2</b>	nodweddion da a dim diffygion pwysig
<b>Gradd 3</b>	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
<b>Gradd 4</b>	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
<b>Gradd 5</b>	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

**Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.**

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALIau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Cyd-destun</b>	1
<b>Crynodeb</b>	1
<b>Argymhellion</b>	6
<b>Safonau</b>	7
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	7
<b>Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant</b>	10
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	10
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	12
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	14
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	16
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	16
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	18
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	19
<b>Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu</b>	20
Cymraeg iaith cyntaf	20
Mathemateg	21
Gwyddoniaeth	22
Technoleg gwybodaeth	23
Hanes	24
Cerddoriaeth	25
<b>Ymateb yr ysgol i'r arolygiad</b>	26
<b>Atodiadau</b>	27
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	27
2 Data a dangosyddion ysgol	27
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	28
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	29
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	29

## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Bro Inqli yn nhref fechan Trefdraeth, ger Abergwaun ar arfordir gorllewinol Sir Benfro. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardaloedd Trefdraeth, Nanhyfer, Dinas a Threwyddel. Mae 97.5 o ddisgyblion (cyfwerth ag amser llawn), rhwng 3-11 oed, ar y gofrestr. Derbynnir y disgyblion i'r ysgol yn rhan amser yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng ychydig dros y blynyddoedd diwethaf, yn unol â thueddiadau lleol.
2. Nid yw'r ysgol yn barnu bod y dalgylch naturiol yn un ffyniannus nac yn dioddef anfanteision economaidd. Mae gan 5.5% o'r disgyblion hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim; mae'r ffigur hwn yn is o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol a sirol.
3. Derbynnir disgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae 28 (29%) ohonynt wedi eu harenwi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r canran hwn yn uwch na'r canran cenedlaethol. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.
4. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol a hefyd y brif iaith a siaredir yng nghartrefi 8% o'r disgyblion.
5. Mae'r ysgol wedi derbyn achrediad 'Marc Ansawdd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol' am y trydydd tro ac mae wedi llwyddo i achredu fel ysgol 'Buddsoddwr mewn Pobl' am yr ail dro.
6. Apwyntiwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym mis Medi 1997. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai, 2002. Yn ystod yr arolygiad, addysgwyd dau ddosbarth gan athrawesau cyflenwi.

### Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7. Prif nod yr ysgol yw i ddarparu addysg fydd yn cwrdd ag anghenion pob disgybl, gan eu cynorthwyo i gyrraedd eu llawn potensial. Dylai'r addysg hon ei galluogi i fyw yn hyderus ac yn adeiladol o fewn y gymdeithas y maent yn rhan ohoni.
8. Mae prif flaenoriaethau a thargedau'r ysgol ar gyfer 2008 yn cynnwys:
  - parhau i baratoi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen;
  - gwella tir yr ysgol i ddarparu cyfleusterau dysgu ychwanegol;
  - parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY;
  - parhau i ddatblygu medrau dysgu'r disgyblion; a
  - darparu cyfleoedd i'r disgyblion i fod ynghlwm â gwaith Menter a Busnes.

### Crynodeb

9. Mae hon yn ysgol a chanddi lawer o nodweddion da. Mae'n llwyddo i greu amgylchedd gofalgwr a chefnogol ar gyfer ei disgyblion sy'n hyrwyddo'u dysgu a'u datblygiad yn effeithiol. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi cynnal y safonau da mewn llawer o'r pynciau a arolygwyd, ac mae wedi llwyddo i wella ansawdd y ddarpariaeth addysgol ymhellach mewn agweddau ar ei gwaith.

10. Mae'r adroddiad hunan arfarnu, a ysgrifennwyd gan y pennaeth, y corff llywodraethol a'r athrawon cyn yr arolygiad, yn glir a chydlynus. Roedd y tîm arolygu'n cytuno â barnau'r ysgol mewn pump allan o'r saith cwestiwn allweddol, gan ddyfarnu gradd yn is mewn dau gwestiwn allweddol lle arenwyd agweddau ar y ddarpariaeth sydd angen eu datblygu ymhellach.

#### Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 2
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 1
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 1
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	Gradd 2
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 2
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 2

#### Safonau

11. Yn y gwersi a arolygwyd, mae safonau cyflawniad disgyblion fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
11%	78%	11%	0%	0%

12. Mae'r ysgol yn bodloni targed Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ar gyfer 2010, sef bod ansawdd y dysgu a aseswyd gan Estyn yn Radd 3 neu'n well mewn 98% o ddsbarthiadau. Hefyd, mae'r ffigurau'n uwch na'r ffigurau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf y Prif Arolygydd ar gyfer 2006-2007, sy'n datgan bod safonau yn Radd 1 neu'n Radd 2 at ei gilydd mewn 80% o'r gwersi a arolygwyd. Mae'r ffigurau hefyd yn uwch na'r 10% a gafodd eu dyfarnu yn Radd 1.

#### Y Blynyddoedd Cynnar

13. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, a gwna'r plant gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

#### Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

14. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae safonau cyflawniad disgyblion yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Pwnc	Cyfnod allweddol 1	Cyfnod allweddol 2
Cymraeg	Gradd 2	Gradd 2
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Technoleg gwybodaeth	Gradd 2	Gradd 2
Hanes	Gradd 2	Gradd 2
Cerddoriaeth	Gradd 2	Gradd 2

15. Mae'r addysg a ddarperir gan yr ysgol yn bodloni anghenion ac ystod y disgyblion yn effeithiol. Mae'r disgyblion, gan gynnwys y rheiny ag ADY, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.
16. Dros y blynyddoedd, mae canlyniadau'r asesiadau gwaelodlin yn dangos bod cyrhaeddiad y plant wrth ddod i mewn i'r ysgol yn eang. Maent yn gwneud cynnydd cyson ac yn cyflawni safonau da mewn medrau gwrando, siarad, darllen, ysgrifennu, rhifedd cynnar ac wrth ddefnyddio medrau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae datblygiad eu medrau addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), a'u medrau dysgu, yn dda hefyd.
17. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion mewn safonau a chynnydd disgyblion wrth ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn defnyddio'r medrau yma yn addas wrth ymgymryd ag ystod eang o dasgau ac mae'r gwaith gorau o safon dda yn arbennig mewn Cymraeg, Saesneg a TGCh yng nghyfnod allweddol 2. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu ac yn ymestyn eu medrau allweddol yn gyson ar draws y cyfnodau allweddol.
18. Mae safonau disgyblion yn eu hyfedredd dwyieithog yn dangos cynnydd rhagorol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg.
19. Yn asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) yn 2007, roedd cyraeddiadau disgyblion cyfnod allweddol 1, yn ôl asesiad athro, mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. O gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru, ar sail prydau ysgol am ddim, roedd cyraeddiadau'r disgyblion yn y 25% uchaf ym mathemateg a gwyddoniaeth ac yn y 50% isaf yn y Gymraeg. Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad y bechgyn a'r merched.
20. Yn asesiadau'r CC yn 2007, roedd cyraeddiadau disgyblion cyfnod allweddol 2, yn ôl asesiad athro, yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol yn y Gymraeg a Saesneg; roeddynt yn debyg yng ngwyddoniaeth ond yn is mewn mathemateg. O gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru, ar sail prydau ysgol am ddim, roedd cyraeddiadau'r disgyblion yn y 50% isaf yn y Gymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth ac yn y 25% isaf ym mathemateg. Roedd y canran uchel o ddisgyblion oedd ag ADY yn y dosbarth, tua 54%, yn ffactor arwyddocaol ac yn effeithio'n amlwg ar y canlyniadau. Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad y bechgyn a'r merched.
21. Gwna'r disgyblion gynnydd rhagorol yn eu medrau personol a chymdeithasol. Maent yn llawn cymhelliant a gweithiant yn gynhyrchiol yn y gwersi gan ganolbwyntio'n dda ar eu tasgau dros gyfnodau estynedig. Gwnânt gynnydd da tuag at gyflawni'u potensial.
22. Yn yr arfer orau, gwna'r disgyblion gynnydd da yn eu gallu i weithio'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb dros eu gwaith eu hunain. Gall y disgyblion hynaf, er enghraifft, drefnu eu gwaith eu hunain, datrys problemau a gwneud penderfyniadau yn hyderus. Dengys disgyblion ddatblygiad da yn eu medrau creadigol ar draws yr ysgol.
23. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda iawn. Mae disgyblion yn parchu traddodiadau diwylliannol a chymdeithasol eraill ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o faterion cyfleoedd cyfartal.

24. Mae gan y disgyblion dargedau personol ar gyfer eu datblygiad pellach. Gall y disgyblion hynaf drafod eu gwaith yn hyderus, a gwyddant yr hyn sydd angen ei wneud nesaf er mwyn gwella ansawdd eu gwaith. Yn gyffredinol, nid yw gallu disgyblion i arfarnu eu gwaith ac i nodi'r hyn y mae'n rhaid iddynt wneud i wella wedi'i ddatblygu'n ddigonol.
25. Mae ymddygiad disgyblion yn dda. Mae hyn yn amlwg yn ystod y gwasanaeth addoli ar y cyd, ar amserau bwyd ac yn y modd y symudant yn drefnus o amgylch yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwylir ganddynt.
26. Mae gwybodaeth y disgyblion o faterion amgylcheddol, materion gwarchodaeth a materion byd-eang yn dda gyda'r disgyblion hynaf yn dangos dealltwriaeth aeddfed o'r agweddau pwysig. Mae gan ddisgyblion ymdeimlad eglur o berchnogaeth o'r ysgol a'i hamgylchedd ac o gyfrifoldeb drostynt.
27. Mae canran presenoldeb yr ysgol dros y tri thymor cyn yr arolygiad yn 95% sydd yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Mynycha'r disgyblion yr ysgol yn rheolaidd ac maent yn brydlon yn y bore. Mae'r gweithdrefnau cofrestru'n cydymffurfio â'r gofynion cyfredol.
28. Mae gwybodaeth y disgyblion am fywyd cymunedol yn eu hardal yn dda, a chyfrannant at lawer o ddigwyddiadau lleol. Drwy ymweliadau a chyfraniad ymwelwyr at y cwricwlwm, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'r byd gwaith yn eu hardal.

### **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

#### **Graddau ar gyfer addysgu**

29. Yn y gwersi a arsylwyd, mae ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	<b>Gradd 2</b>	<b>Gradd 3</b>	<b>Gradd 4</b>	<b>Gradd 5</b>
5%	81%	14%	0%	0%

30. Mae'r ysgol yn bodloni targed LICC ar gyfer 2010, sef bod ansawdd yr addysgu a asesir gan Estyn yn Radd 2 neu'n well mewn 80% o ddsbarthiadau. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn cyfateb â'r canfyddiadau cenedlaethol yr adroddwyd amdanynt yn Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2006-7, sy'n nodi bod ansawdd addysgu yn Radd 1 neu'n Radd 2 at ei gilydd mewn 80% o wersi a arolygwyd. Fodd bynnag, maent islaw'r 14% a ddyfarnwyd yn Radd 1.
31. Mae'r nodweddion da a rhagorol yn yr addysgu yn cynnwys disgwyliadau uchel ar draws y cwricwlwm, addysgu uniongyrchol trwyadl a rhyngweithio effeithiol rhwng athrawon a disgyblion. Lle mae diffygion yn yr addysgu, ceir cyflwyniadau hir ar ddechrau gwersi ac nid yw'r tasgau a ddarperir bob amser yn cydweddu â'r ystod eang o anghenion dysgu ym mhob dosbarth.
32. Mae'r nodweddion da yn y gweithdrefnau asesu yn gorbwyso'r diffygion. Mae gan yr ysgol amrywiaeth eang o weithdrefnau asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Serch hynny, nid yw athrawon yn defnyddio'r wybodaeth a enillwyd yn ddigonol i gynllunio addysgu a dysgu yn y dyfodol. Mae'r adroddiadau blynyddol ar gynnydd disgyblion o ansawdd da ac yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gyflawniad eu plant ym mhob pwnc.
33. Mae nodweddion rhagorol i'r profiadau dysgu a ddarperir i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog sy'n cynnwys yr holl ofynion statudol. Cyfoethogir dysgu'r disgyblion yn effeithiol gan amrywiaeth eang o

ymweliadau addysgol, gweithgareddau allgyrsiol a defnydd arbennig o bartneriaethau sy'n gwella profiadau dysgu'r disgyblion ac yn cyfrannu'n sylweddol at godi safonau.

34. Nodwedd dda ar y ddarpariaeth yw'r pwyslais ar ddatblygu medrau sylfaenol disgyblion ac mae'r ysgol wedi ennill y Marc Safon Sgiliau Sylfaenol am y trydydd tro. Er hyn, nid oes cynllunio digonol bob amser i sicrhau bod medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn cael eu datblygu'n gynyddol ar draws yr ysgol.
35. Hyrwyddir datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus ac mae hon yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth. Mae proffil uchel i'r weithred o addoli ar y cyd dyddiol yn yr ysgol. Gwna'r gwasanaethau gyfraniad da at ddatblygiad ysbrydol y disgyblion, eu dealltwriaeth o faterion moesol, ac mae'n hyrwyddo parch tuag at bobl o'u hamgylch a'r amgylchedd.
36. Mae ethos Cymraeg cryf iawn yn yr ysgol hon. Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth i hyrwyddo medrau dwyieithog disgyblion yn nodwedd ragorol. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais da ar ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o'r diwylliant Cymreig a threftadaeth Cymru.
37. Mae'r partneriaethau gyda rhieni yn dda. Mae rhieni'n gefnogol iawn i'r ysgol, a mynegant lefelau uchel o fodlonrwydd â'r addysg a gaiff eu plant. Cyfrannant yn hael tuag at wella'r cyflenwad adnoddau yn yr ysgol. Mae'r partneriaethau ag ysgolion ac asiantaethau eraill yn dda hefyd.
38. Mae'r cysylltiadau niferus gyda'r gymuned leol yn cyfrannu'n sylweddol at ddysgu'r disgyblion mewn nifer o feysydd cwricwlaidd. Mae'r ymwelwyr â'r ysgol yn cynnwys artistiaid proffesiynol, grwpiau drama, gweithwyr cymunedol, crefftwyr a cherddorion. Gwnânt oll gyfraniad gwerthfawr iawn wrth ymestyn yr ystod o brofiadau a gynigir i ddisgyblion. Mae hon yn nodwedd ragorol.
39. Mae nodweddion rhagorol i ansawdd y gofal bugeiliol, y cymorth a'r arweiniad a gynigir i ddisgyblion. Mae hon yn ysgol gynhwysol sy'n rhoi sylw da i les disgyblion. Mae polisiâu a gweithdrefnau clir yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, gan gynnwys atal tân a chymorth cyntaf. Mae'r oruchwyliaeth yn ystod egwyl chwarae yn dda, a chynhelir asesiadau risg cyn teithiau ac ymweliadau. Mae polisi addas ar gyfer diogelu plant ac mae'r staff yn ymwybodol o arweiniad y polisi. Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo addysg iechyd ac ar gyfer hybu arferion bwyta a byw yn iach.
40. Mae nodweddion rhagorol i'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag ADY. Mae'r ddarpariaeth yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cod Ymarfer. Mae athrawon a staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn, ac mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Gwneir defnydd arbennig o arbenigedd y staff cefnogi i ddarparu cymorth i ddisgyblion fel unigolion ac fel aelodau o'u grwpiau yn y dosbarth. Caiff y disgyblion hyn eu cynnwys yn llawn ym mywyd a gwaith yr ysgol a gwnânt gynnydd da.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

41. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn sy'n llywio gwelliant yr ysgol yn hynod o effeithiol. Mae'r staff, y llywodraethwyr a rhieni'n ymwybodol o'i gwerthoedd ac adlewyrchir y rhain yn dda iawn yng ngwaith yr ysgol. Mae'r dirprwy bennaeth yn darparu cefnogaeth effeithiol ac yn fodel rôl da ar gyfer cydweithwyr.

42. Mae cynllun datblygu'r ysgol (CDY) yn pennu amcanion a thargedau realistig sy'n seiliedig ar anghenion yr ysgol. Rheolir y gyllideb yn ofalus, ac mae'r gwariant yn cyfateb yn agos i dargedau'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'i phrif flaenoriaethau.
43. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr wedi ymroi i wella safonau, a lluniwyd rhaglen fonitro adeiladol sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am ansawdd y ddarpariaeth. Er hyn, nid oes ffocws cyson ar fonitro safonau cyflawniad disgyblion.
44. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn a gwna gyfraniad llawn at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae gan yr aelodau adnabyddiaeth dda o anghenion cyfredol yr ysgol ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at brosesau cynllunio strategol. Maent yn datblygu'u rôl wrth fonitro ansawdd y ddarpariaeth yn briodol. Er hyn, nid yw'r rôl o fonitro safonau cyflawniad disgyblion wedi'i datblygu'n ddigonol. Rhoddir sylw da i'r gofynion statudol yn nogfennaeth yr ysgol.
45. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf, ac mae wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad.
46. Caiff adnoddau eu rheoli a'u defnyddio'n dda. Mae digon o athrawon profiadol â chymwysterau addas i gyflawni gwaith yr ysgol. Mae nifer ddigonol o gynorthwyr dysgu a chânt eu defnyddio'n effeithiol iawn. Lleisiwyd pryder yn y cyfarfod rhieni ynghylch y trefniant addysgu yn un o'r dosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 2 sy'n cael ei addysgu gan fwy nag un athro yn ystod yr wythnos. Yn ystod yr arolygiad, ni welwyd tystiolaeth fod y trefniant yn amharu ar ddatblygiad y disgyblion. Mae'r pennaeth yn ymwybodol y dylid monitro'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod y cydgynllunio a'r cydweithio rhwng yr athrawon hynny yn parhau.
47. Mae cyflenwad da o adnoddau dysgu a chânt eu defnyddio'n effeithiol i hwyluso'r addysgu a'r dysgu. Mae'r adeilad a safle'r ysgol yn darparu cyfleusterau dysgu rhagorol i'r disgyblion. Mae'r pennaeth a'r is-bwyllgor cyllid yn adolygu ac yn monitro gwariant yn rheolaidd, gan alluogi'r ysgol i ddarparu gwerth da am arian.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r ysgol:

- A1. ledaenu nodweddion da yr addysgu yn fwy cyson ar draws y ddarpariaeth er mwyn codi safonau ymhellach;
- A2. gryfhau'r cynllunio ysgol gyfan i ddatblygu medrau allweddol y disgyblion yn fwy cyson ar draws yr ysgol;
- A3. ddatblygu ymhellach y gweithdrefnau asesu, a chryfhau'r cyswllt rhwng deilliannau'r broses a chynllunio'r addysgu a'r dysgu;
- A4. ddatblygu'r gweithdrefnau hunan arfarnu ymhellach, gan ganolbwyntio'n fwy cyson ar arfarnu safonau cyflawniad y disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Safonau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

#### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

48. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
49. Yn y gwersi a arolygwyd, mae safonau cyflawniad y disgyblion fel a ganlyn:

Safonau cyflawniad y disgyblion	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
	11%	78%	11%	0%	0%

50. Mae'r ysgol yn bodloni targed LICC ar gyfer 2010, sef bod ansawdd y dysgu a asesir gan Estyn yn Radd 3 neu'n well mewn 98% o ddsbarthiadau. Yn ychwanegol, mae'r ffigurau uwchlaw'r ffigurau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf y Prif Arolygydd ar gyfer 2006-7, sy'n datgan bod safonau yn Radd 1 a 2 at ei gilydd mewn 80% o'r gwersi a arolygwyd. Mae'r ffigurau hefyd yn uwch na'r 10% a ddyfarnwyd yn Radd 1.

#### Y blynyddoedd cynnar

51. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

#### Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

52. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae safonau cyflawniad disgyblion yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Pwnc	Cyfnod allweddol 1	Cyfnod allweddol 2
Cymraeg	Gradd 2	Gradd 2
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Technoleg a gwybodaeth	Gradd 2	Gradd 2
Hanes	Gradd 2	Gradd 2
Cerddoriaeth	Gradd 2	Gradd 2

53. Yn y pynciau a arolygwyd, gwna'r disgyblion gynnydd da wrth ymgyrraedd at eu potensial, a chyflawnant y nodau dysgu cytunedig. Gwna'r disgyblion ag ADY gynnydd da yn unol â'u targedau.
54. Dros y blynyddoedd, mae canlyniadau gwaelodlin ar gyfer y plant dan bump oed yn dangos bod ystod eu gallu pan ddechreuant yr ysgol yn eang. Mae safonau a chynnydd y plant yn y medrau gwrando, siarad, darllen, ysgrifennu, rhifedd cynnar a defnyddio TGCh yn dda. Mae eu medrau ABCh, a'u medrau dysgu yn dda hefyd.
55. Yn y ddau gyfnod allweddol, gwna'r disgyblion ddefnydd priodol o'u medrau llythrennedd Cymraeg yn eu gwaith ar draws y pynciau ac mae'r gwaith gorau o safon dda gydag enghreifftiau o safon dda iawn yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn siarad yn glir ac yn hyderus ac yn defnyddio geirfa estynedig gyda dealltwriaeth. Gwnânt ddefnydd addas o'u medrau darllen i gasglu gwybodaeth, ac ysgrifennant ar gyfer ystod dda o ddibenion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau llawysgrifen a chyflwyno mwyafrif y

disgyblion o safon uchel. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau Saesneg y disgyblion yn dda, ac yn dda iawn yng ngwaith y goreuon.

56. Yng nghyfnod allweddol 1, mae safonau rhifedd a TGCh y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn anwastad gyda'r gwaith gorau o safon dda. Yng nghyfnod allweddol 2, gwna'r disgyblion ddefnydd addas o'u medrau rhifedd ar gyfer ymwneud â thasgau ymarferol ac mae'r gwaith gorau o safon dda. Mae medrau TGCh y disgyblion yn dda. Defnyddiant amrediad o feddalwedd yn hyderus i wahanol bwrpasau mewn pynciau eraill megis hanes, mathemateg a cherddoriaeth. Yn gyffredinol, nid yw'r disgyblion yn datblygu ac yn gwella eu medrau allweddol yn gyson ar draws yr ysgol.
57. Yn asesiadau'r CC yn 2007, roedd cyraeddiadau disgyblion cyfnod allweddol 1, yn ôl asesiad athro, mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. O gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru, ar sail prydau ysgol am ddim, roedd cyraeddiadau'r disgyblion yn y 25% uchaf ym mathemateg a gwyddoniaeth ac yn y 50% isaf yn y Gymraeg. Dros y tair blynedd diwethaf bu cyraeddiadau'r disgyblion at ei gilydd ymhlith y 50% uchaf o ysgolion. Er hyn, roedd y cyfran disgyblion oedd yn cyrraedd y lefel uwch, sef lefel 3, yn y pynciau craidd yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol ym mhob pwnc. Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad y bechgyn a'r merched.
58. Yn asesiadau'r CC yn 2007, roedd cyraeddiadau disgyblion cyfnod allweddol 2, yn ôl asesiad athro, yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol yn y Gymraeg a Saesneg, roeddynt yn debyg yng ngwyddoniaeth ond yn is ym mathemateg. O gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru, ar sail prydau ysgol am ddim, roedd cyraeddiadau'r disgyblion yn y 50% isaf yn y Gymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth ac yn y 25% isaf ym mathemateg. Roedd y cyfran disgyblion oedd yn cyrraedd y lefel uwch, sef lefel 5, yn y pynciau yma yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Roedd y canran uchel o ddisgyblion oedd ag anghenion dysgu ychwanegol, tua 54%, yn ffactor arwyddocaol ac yn effeithio'n amlwg ar y canlyniadau. Dros y tair blynedd diwethaf, bu cyraeddiadau'r disgyblion at ei gilydd ymhlith y 25% isaf o ysgolion. Eto mae data'r ysgol yn cadarnhau y lefel uchel o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ym mhob blwyddyn. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad y bechgyn a'r merched.
59. Dengys y disgyblion ddatblygiad rhagorol yn eu medrau personol a chymdeithasol ac yn eu gallu i gydweithio. Mae disgyblion o bob oed yn cydweithio'n effeithiol mewn parau ac fel grwpiau.
60. Yn yr arfer orau, mae'r disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am agweddau ar eu dysgu, gan drefnu eu gwaith eu hunain yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion hynaf yn trefnu eu gwaith yn hyderus, yn rhannu tasgau ac yn gwrandao ar farn ei gilydd yn dda.
61. Nodwedd amlwg a phleserus o fywyd yr ysgol yw agwedd gadarnhaol y disgyblion tuag at ddysgu, eu diddordeb yn eu gwaith a'u gallu i ganolbwyntio. Mae yma ethos gwaith ac mae'r disgyblion yn ymateb yn frwd yn y dosbarth.
62. At ei gilydd, gwelir cynnydd da ym medrau ymchwilio a datrys problemau'r disgyblion mewn agweddau ar bynciau megis mathemateg, technoleg

gwybodaeth a hanes. Dengys disgyblion ddatblygiad da yn eu medrau creadigol ar draws yr ysgol.

63. Mae cymhwysedd dwyieithrwydd y disgyblion yn datblygu'n dda iawn ac yn nodwedd ragorol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion bron yn ddieithriad yn cyfathrebu'n rhwydd ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.
64. Mae gan y disgyblion dargedau personol ar gyfer eu datblygiad pellach. Gall y disgyblion hynaf drafod y cryfderau a'r gwendidau arbennig yn eu gwaith, a gwyddant yr hyn sydd angen ei wneud nesaf er mwyn gwella ansawdd eu gwaith. Yn gyffredinol, nid yw gallu disgyblion i arfarnu eu gwaith ac i nodi'r hyn y mae'n rhaid iddynt wneud i wella wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae hwn yn faes a nodwyd yn briodol gan yr ysgol i'w ddatblygu ymhellach.
65. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda iawn. Llwyddant yn dda i ddatblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol a moesol trwy arwain a chyfrannu at y sesiynau addoli ar y cyd. Dangosant gonsŷrn ac empathi ag eraill yn ôl eu hoedran. Un ffordd yr amlygant hyn yw drwy gasglu symiau o arian at achosion da. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd tegwch, cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal.
66. Gwelir cynnydd da yn natblygiad diwylliannol y disgyblion wrth iddynt ymwneud â gweithgareddau'r Urdd ac wrth iddynt ddysgu am artistiaid ac enwogion Cymreig mewn pynciau megis celf, cerdd a hanes. Mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag amgylchiadau, traddodiadau a diwylliannau eraill trwy eu hastudiaethau ar draws y cwricwlwm a chyfraniad ymwelwyr i'r themâu dan sylw.
67. Trwy eu hastudiaethau ar draws y cwricwlwm a phrosiectau penodol, mae gan y disgyblion wybodaeth dda am gynladwyedd gyda'r disgyblion hynaf yn arbennig yn dangos dealltwriaeth aeddfed a thrylwyr o egwyddorion cadwraeth a materion byd-eang.
68. Caiff y disgyblion amrywiaeth o gyfrifoldebau ym mywyd yr ysgol, megis cynnal y gwasanaeth boreol a helpu yn y dosbarth. Mae aelodaeth o'r cyngor ysgol yn galluogi'r disgyblion i feithrin medrau cymdeithasol gwerthfawr ac yn hybu eu gwybodaeth o ddinasyddiaeth yn effeithiol.
69. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda. Maent yn gwrtais gyda staff a chroesawgar wrth ymwelwyr. Mae disgyblion o bob oed yn cyd-chwarae'n hapus. Mae'r mwyafrif yn symud yn drefnus o'r naill weithgaredd i'r llall ac yn deall a pharchu disgwyliadau uchel yr ysgol.
70. Mae gan y disgyblion wybodaeth dda am fywyd cymunedol eu hardal a chyfrannant i lawer o achlysuron lleol. Mae cysylltiadau ac ymweliadau niferus â'r gymuned leol yn datblygu adnabyddiaeth y disgyblion o hanes, diwylliant ac amgylchedd yr ardal yn effeithiol. Trwy ymweliadau a chyfraniadau ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, mae gan y disgyblion wybodaeth dda am fyd gwaith yn eu hardal. Trwy weithgareddau penodol, megis cynllunio, creu a gwerthu calendrau a chardiau cyfarch, mae medrau menter y disgyblion yn datblygu'n dda.
71. Cyfartaledd presenoldeb ysgol-gyfan am y tri thymor cyn yr arolygiad oedd 95%. Mae hwn yn uwch na'r cyfraddau presenoldeb cenedlaethol a sirol ar gyfer disgyblion oedran ysgol gynradd. Mae disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn

brydlon ac mae'r amserlen ddyddiol yn gweithredu'n ddidrafferth. Mae'r gweithdrefnau cofrestru yn cydymffurfio â'r gofynion cyfredol.

## Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

#### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

72. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

73. Yn y gwersi a arolygwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
5%	81%	14%	0%	0%

74. Mae'r ysgol yn bodloni targed LICC ar gyfer 2010 bod ansawdd yr addysgu a aseswyd gan Estyn yn radd 3 neu'n well mewn 98% o ddsbarthiadau. Mae'r canlyniadau hefyd yn cwrdd â chanfyddiadau cenedlaethol Adroddiad Blynyddol Y Prif Arolygydd 2006-2007 sy'n nodi bod ansawdd yr addysgu at ei gilydd yn Radd 1 a 2 mewn 80% o'r gwersi a arolygwyd, ond meant yn is na'r 10% a farnwyd yn Radd 1.

75. At ei gilydd, mae gan yr athrawon wybodaeth dda am y CC, addysg grefyddol a'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Adlewyrchir hyn yn y broses o gynllunio a pharatoi gwersi. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau addas sy'n briodol i'r gweithgareddau y maent yn eu trefnu.

76. Cydweithia'r athrawon a'r cynorthwy-wyr yn effeithiol i ddarparu cefnogaeth dda iawn i'r disgyblion. Creant ethos gwaith cadarnhaol yn eu dosbarthiadau.

77. Mae'r addysgu yn hyrwyddo datblygiad dwyieithog y disgyblion yn llwyddiannus ac yn nodwedd ragorol o waith yr athrawon. Defnyddia'r athrawon amrywiaeth o strategaethau pwrpasol i ymestyn medrau cyfathrebu'r disgyblion a manteisir ar bob cyfle i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig o fewn pynciau.

78. Mae athrawon yn herio delweddau a safbwyntiau ystrydebol yn llwyddiannus a chaiff yr holl ddisgyblion eu hannog i gyfrannu'n weithredol at yr ystod lawn o weithgareddau a ddarperir. Mae'r athrawon yn monitro ac adolygu gwaith eu disgyblion yn gyson.

79. Caiff gwersi eu cynllunio'n briodol i sicrhau ystod dda o weithgareddau. Yn yr arfer orau, mae'r cynllunio yn sicrhau bod y tasgau yn cydweddu'n briodol ag anghenion dysgu'r disgyblion o oed a gallu cymysg. Nid yw'r drefn yn gyson ar draws yr ysgol

80. Mae'r nodweddion rhagorol i'r addysgu a arsylwyd yn cynnwys:

- rhyngweithio ardderchog rhwng athro a disgybl; a
- chyfleoedd arbennig i'r disgyblion ymchwilio ac i feithrin annibyniaeth fel dysgwyr.

81. Mae'r nodweddion da i'r addysgu a arsylwyd yn cynnwys:

- gwersi gyda nodau clir sy'n cael eu rhannu gyda disgyblion;

- addysgu uniongyrchol effeithiol a chwestiynu da;
  - defnydd da o waith unigol, gwaith pâr, gwaith grŵp a gwaith dosbarth-cyfan; a
  - sesiynau llawn ar ddiwedd gwersi sy'n cynnig cyfle i ddisgyblion adfyfyrion ar gynnwys gwersi ac i atgyfnerthu eu dealltwriaeth.
82. Mae'r diffygion mwyaf cyffredin yn yr addysgu yn cynnwys:
- cyflwyniadau hir ar ddechrau gwersi;
  - tasgau nad ydynt wedi'u gweddu'n dda i anghenion dysgu disgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy abl;
  - gorddefnydd o daflenni gwaith; a
  - chyfleoedd anwastad i'r disgyblion ddatblygu ac ymestyn eu medrau TGCh ar draws yr ysgol.
83. Mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion wrth asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae gweithdrefnau ysgol-gyfan priodol ar waith ac fe geir profi rheolaidd yn y pynciau craidd sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gyflawniadau'r disgyblion. Mae'r asesu a'r cofnodi o gynnydd disgyblion yn y pynciau sylfaen yn fwy anffurfiol eu natur.
84. Mae'r gweithdrefnau asesu ac adrodd yn bodloni'r gofynion statudol. Caiff yr asesiad gwaelodlin ei weithredu'n gywir a gosodir targedau ar gyfer datblygu ymhellach. Adroddir asesiadau cenedlaethol i rieni ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol a gwneir asesiad, adroddiad ac adolygiad trylwyr o anghenion disgyblion ag ADY.
85. Cedwir cofnod manwl o ganlyniadau'r asesiadau a'r profion i'w cyflwyno i'r athrawon dosbarth a'r cydgysylltwyr pwnc. Gwneir defnydd da o'r wybodaeth a gesglir i adnabod cryfderau a gwendidau disgyblion unigol a threfnir rhaglenni addas ar gyfer y disgyblion sydd ag ADY. Er hyn, nid oes defnydd digonol o'r wybodaeth a gesglir wrth gynllunio addysgu a dysgu ar draws pob gallu.
86. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd. Mae'r codau a ddefnyddir yng nghyfnod allweddol 2 yn gymorth i'r disgyblion, ac mae sylwadau'r athrawon yn cynnig anogaeth gyffredinol. Yn yr arfer orau, mae sylwadau ysgrifenedig yr athrawon yn esbonio'n dda i ddisgyblion sut y gallant wella eu gwaith.
87. Gosodir targedau gwelliant i'r disgyblion mewn mathemateg, Cymraeg a Saesneg. Cedwir cofnod o'r targedau yn llyfrau gwaith y disgyblion ac fe'u hadolygir yn gyson a'u trafod mewn cyfarfodydd gyda'r rhieni. Mewn rhai dosbarthiadau, defnyddir taflenni gwirio i annog disgyblion i werthuso eu gwaith eu hunain er mwyn meithrin medrau hunan-asesu, ond nid yw'r gwaith hwn wedi ei ddatblygu'n ddigonol ar draws yr ysgol.
88. Mae portffolios pynciol mewn mathemateg, gwyddoniaeth ac iaith yn rhoi enghreifftiau defnyddiol i athrawon o waith wedi'i asesu er mwyn dangos y lefelau y dylid eu cyflawni. Mae'r cydweithio ar sail clwstwr i safoni a chymedroli asesiadau y nodwedd dda.
89. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn cyflawni'r gofynion statudol. Maent yn nodi cyflawniadau a medrau'r disgyblion ym mhob pwnc ac yn nodi targedau ar gyfer gwelliant yn y pynciau craidd. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfleoedd a

gânt mewn cyfarfodydd ffurfiol i dderbyn gwybodaeth a thrafod anghenion a chynnydd eu plant.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

90. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Mae nodweddion rhagorol y ddarpariaeth yn cynnwys y cwricwlwm cyfoethog a gynigir i ddisgyblion, y ffocws arbennig ar hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion, a'r defnydd llwyddiannus o bartneriaethau sy'n cyfoethogi gwaith yr ysgol ac yn gwella profiadau a safonau cyflawniad y disgyblion.
91. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion dysgu'r disgyblion ac fe gynigir gyfleoedd cyfartal iddynt fanteisio ar gwricwlwm eang a chyfoethog yn y Blynnyddoedd Cynnar ac ar draws y cyfnodau allweddol.
92. Mae'r cwricwlwm yn bodloni gofynion y CC ac addysg grefyddol. Mae polisïau a chynlluniau gwaith priodol ar waith sy'n hyrwyddo parhad a dilyniant yn y dysgu ar draws y cyfnodau allweddol.
93. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol i'r rhai dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Darperir amrywiaeth dda o brofiadau a gweithgareddau priodol, yn yr ystafell ddosbarth a thu allan, sy'n bodloni anghenion plant ifanc yn dda.
94. Mae nodweddion rhagorol i'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY. Caiff y disgyblion eu cynnal yn dda iawn, naill ai yn y dosbarth neu trwy system o sesiynau neilltuo.
95. Nodwedd dda ar y ddarpariaeth yw'r pwyslais ar ddatblygu medrau sylfaenol disgyblion ac mae'r ysgol wedi ennill y Marc Safon Sgiliau Sylfaenol am y trydydd tro. Mae cynllunio'r athrawon yn dynodi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau allweddol a gwelwyd enghreifftiau da o hyn yn nosbarthiadau cyfnod allweddol 2. Serch hynny, nid yw'r cynllunio ysgol gyfan yn sicrhau bod medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn cael eu datblygu'n gynyddol ar draws yr ysgol.
96. Caiff hyfedredd dwyieithog y disgyblion ei ddatblygu'n llwyddiannus iawn ac mae hon yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth. Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd ynghyd â gweithgareddau dydd i ddydd yr ysgol yn hyrwyddo medrau dwyieithrwydd y disgyblion yn dda iawn. Yn ychwanegol, caiff y disgyblion amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau ieithyddol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau megis Eisteddfod yr Urdd, cyngherddau a gwasanaethau, digwyddiadau Menter Iaith, Theatr Arad Goch ac ystod o ymweliadau preswyl.
97. Rhoddir pwyslais da iawn ar y Cwricwlwm Cymreig mewn gwaith dosbarth, mewn gweithgareddau allgyrsiol, ac mewn gweithgareddau cymunedol. Mae ymweliadau ag amgueddfeydd, y Llyfrgell Genedlaethol a manau o ddiddordeb

hanesyddol, megis Castell Henllys, yn cyfoethogi ymwybyddiaeth disgyblion o'u diwylliant a'u hetifeddiaeth yn effeithiol iawn.

98. Caiff ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill eu hyrwyddo'n dda trwy eu hastudiaethau cwricwlaidd. Croesewir rhieni o gefndir ethnig gwahanol i mewn i'r ysgol gan roi cyfle i'r disgyblion ddatblygu gwybodaeth a derbyn profiadau amrywiol, megis dawns, coginio a cherdd, o ddiwylliannau eraill.
99. Mae nodweddion rhagorol i'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir, ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr â'r ysgol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol iawn. Caiff profiadau dysgu'r disgyblion eu hehangu trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y clybiau ar ôl ysgol, megis Adran yr Urdd, clwb garddio, clwb cyfrifiaduron i ferched, clwb chwaraeon a chlwb coginio. Mae'r gweithgareddau hefyd yn cynnwys ymweliadau preswyl i Wersyll Llangrannog a Chanolfan yr Urdd Caerdydd, yn ogystal ag ymweliadau lleol a thu hwnt sydd yn ymwneud â'r thema dosbarth.
100. Mae'r cysylltiadau niferus gyda'r gymuned leol yn effeithiol, ac yn cyfrannu'n sylweddol at ddysgu'r disgyblion mewn nifer o feysydd cwricwlaidd. Mae'r ymwelwyr â'r ysgol yn cynnwys artistiaid proffesiynol, grwpiau drama proffesiynol, gweithwyr cymunedol, crefftwyr, haneswyr a cherddorion. Gwnânt oll gyfraniad gwerthfawr iawn wrth ymestyn yr ystod o brofiadau a gynigir i ddisgyblion.
101. Mae nodweddion rhagorol i'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Gwna sesiynau cyd-addoli ysgol gyfan gyfraniad arbennig i ddealltwriaeth y disgyblion o faterion ysbrydol a moesol gan eu cynorthwyo i barchu gwirionedd a chyfiawnder.
102. Mae'r polisi a'r cynllun gwaith ar gyfer ABCCh yn bodloni'r gofynion cyfredol, a chânt eu gweithredu'n effeithiol. Mae 'amser cylch' yn galluogi'r disgyblion i drafod ac ystyried testunau mewn modd hynod o effeithiol. Maent yn dysgu i fynegi'u teimladau a dangos empathi tuag at ei gilydd. Mae hon yn nodwedd ragorol. Caiff disgyblion eu hannog i feddwl am eraill ac i chwarae rhan weithgar mewn gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol a chodi arian ar gyfer gwahanol fathau o elusennau yn lleol a chenedlaethol.
103. Mae ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda ac wedi gwreiddio'n llawn yng ngwaith a bywyd yr ysgol. Gwna'r ysgol bob ymdrech i weithredu mewn modd cynaliadwy, a chynhwysir y disgyblion yn effeithiol iawn mewn cynlluniau ailgylchu, compostio, sefydlu gardd, plannu coed ac ymweliadau pwysig megis â Phwerdy Amgen Brithdir. Mae gan ddisgyblion ymdeimlad eglur o berchnogaeth o'r ysgol a'i hamgylchedd ac o gyfrifoldeb drostynt.
104. Mae partneriaethau'r ysgol gyda rhieni yn dda ac yn cyfoethogi bywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal eang iawn ac yn llwyddo i greu a chynnal cysylltiadau da iawn gyda'r holl gymunedau trwy, er enghraifft, gynnal gwasanaethau yng nghapeli'r fro. Mae rhieni'n gefnogol iawn i'r ysgol, a mynegant lefelau uchel o fodlonrwydd â'r addysg a gaiff eu plant mewn amgylchedd gofalgwr. Mae llawer ohonynt yn rhoi'n barod o'u hamser i gefnogi gweithgareddau ac i godi arian i'r ysgol. Mae'r cytundeb cartref/ysgol adeiladol wedi cael derbyniad da ymhlith rhieni.

105. Mae'r partneriaethau cwricwlaidd gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yn dda. Trefnir gweithgareddau ar y cyd, megis sesiynau ar gyfer lefelu asesiadau'r pynciau craidd a pharatoi pecynnau cwricwlaidd. Mae'r ymweliadau diwedd tymor â'r ysgol uwchradd a'r cyrsiau ymgyfarwyddo yn cynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion. Mae partneriaeth effeithiol yn bodoli gyda Choleg Penfro ac mae'r ysgol yn derbyn myfyrwyr cwrs gofal plant yn rheolaidd.
106. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg iechyd y disgyblion yn dda. Mae'r ysgol wedi derbyn y drydedd ddeilen yng nghynllun Ysgolion Iach ac wedi gweithredu prosiectau megis Cymru Cooks.
107. Datblygir ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith yn effeithiol trwy ddefnyddio pecyn gweithgareddau Deiamo, y rhaglen ABCh, ac ymweliadau â busnesau lleol fel rhan o'u gwaith thema. Mae eu medrau menter yn datblygu'n dda. Sefydlwyd busnes bychan i gynllunio, cynhyrchu a gwerthu cynnyrch, megis cardiau cyfarch a chalendrau. Darparwyd profiadau da i'r disgyblion wrth iddynt fynd i'r afael ag agweddau pwysig o redeg busnes, gan gynnwys cysylltu gydag arbenigwyr yn y maes yn ogystal â busnesau lleol.
108. Mae'r ysgol yn llwyddo i osod y sylfeini ar gyfer dysgu gydol oes ac adfywio cymunedol trwy agweddau megis datblygu disgyblion yn ddysgwyr hyderus, ehangder ac ansawdd y cyfleoedd dysgu a gynigir, y sylw i addysg iechyd, a'r ffocws ar bwysigrwydd y cysylltiadau cymunedol.

#### **Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?**

<b>Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol</b>
---

109. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Mae nodweddion rhagorol y ddarpariaeth yn cynnwys gwybodaeth drwyadl yr athrawon o anghenion gwahanol y disgyblion, ansawdd uchel y gofal, cymorth a chyfarwyddyd y derbynia'r holl ddisgyblion a'r flaenoriaeth uchel a roddir i sicrhau'r un cyfle addysgol a chymdeithasol ar gyfer pob disgybl.
110. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol ac mae'r holl staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn. Mae'r ysgol yn gweithredu systemau effeithiol iawn o ofal a chefnogaeth sydd yn treiddio pob agwedd o'i gwaith. Dynodir unrhyw anghenion.
111. Mae'r rhieni yn cytuno fod yr ysgol yn arwain a gofalu am eu plant mewn modd cynhaliol. Gall rhieni a chynhalwyr gysylltu â'r ysgol a gallant leisio eu pryderon ynghylch eu plant.
112. Mae trefniadau da ar gyfer sicrhau bod disgyblion newydd yn ymgartrefu'n gyflym yn eu hamgylcheddau newydd. Cyflwynir holiaduron i rieni newydd a chroesewir hwynt i fore coffi yn yr ysgol.
113. Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo addysg iechyd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda rhieni, cynhalwyr a'r gwasanaethau cynnal ar faterion yn ymwneud â lles disgyblion. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer cymorth cyntaf, addysg rhyw, cydraddoldeb hiliol ac atal tân yn eu lle ac maent yn hysbys i bawb. Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas ar gyfer delio â chwynion ac apeliadau.

114. Caiff polisïau amddiffyn plant eu cofnodi'n eglur ac maent yn cwrdd â'r gofynion cyfredol. Mae gan unigolion enwebedig gyfrifoldebau dyranedig, ac mae llywodraethwr penodol hefyd. Mae holl staff yr ysgol yn derbyn hyfforddiant a gwybodaeth addas ar faterion yn ymwneud â gofal plant, megis cymorth cyntaf a threfniadau amddiffyn plant.
115. Mae polisïau ysgol a'r holl weithdrefnau yn ymwneud â phresenoldeb yn eu lle. Mae'r cofrestri a'r gweithdrefnau yn ymateb i'r gofynion cyfredol. Ymhilir i unrhyw achos sydd yn codi pryderon, ac mae monitro yn dda. Mae cydweithio effeithiol gyda'r swyddog lles.
116. Mae'r ysgol yn annog ac yn galluogi'r disgyblion yn llwyddiannus i fod yn iach, ac mae'n hyrwyddo ymarfer cyson a diet iach. Mae pwyslais cryf ar bob agwedd ar addysg iechyd, ac mae hyrwyddo ffordd iachach o fyw yn treiddio i mewn i'r cwricwlwm, ac mae'n amlwg yn yr arferion dyddiol.
117. Mae athrawon a'r cynorthwy-wyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac fe'u cyflawnant yn dda iawn. Caiff disgyblion eu goruchwyllo'n ofalus yn ystod amserau chwarae, egwylliau cinio ac ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Ceir gweithdrefnau clir sydd wedi'u cofnodi'n effeithiol ar gyfer materion iechyd a diogelwch. Er hyn, trafodwyd un mater ymhellach sy'n cael sylw'r corff llywodraethol ar hyn o bryd.
118. Gweithredir polisïau a gweithdrefnau cadarn i sicrhau ymddygiad da. Canmolir a gwobrwyir ymddygiad da ac mae strategaethau clir ar gyfer ymateb i gamymddygiad.
119. Mae nodweddion rhagorol i ansawdd y cymorth ac arweiniad personol a ddarperir i'r disgyblion. Mae gan bob disgybl fynediad llawn i raglen ABCh yr ysgol. Mae trefniadau dyddiol yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu camau eu hunain ac i barchu barn pobl eraill.
120. Mae nodweddion rhagorol i'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac mae'n cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer. Caiff y disgyblion eu cynnwys yn llawn ym mywyd a gwaith yr ysgol. Ceir polisïau ysgol-gyfan effeithiol ac mae pob aelod o'r staff a'r corff llywodraethol yn llwyr ymrwymedig i'w gweithrediad. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.
121. Rhoddwyd 38 o ddisgyblion ar gofrestr ADY yr ysgol a derbyniant oll gynhaliaeth ac arweiniad o safon uchel gan yr athrawon dosbarth, y cynorthwy-ydd dysgu a'r athrawes AAA sy'n ymweld â'r ysgol. Ceir gweithdrefnau effeithiol i ddynodi anghenion dysgu unigol ac mae cynlluniau addysg unigol y disgyblion yn cynnwys y manylder angenrheidiol. Caiff targedau cyraeddadwy eu nodi'n glir yn y cynllunio.
122. Mae ansawdd y gefnogaeth a ddarperir i ddisgyblion a'r cyswllt arbennig rhwng y staff yn gryfderau yn yr ysgol. Mae'r medrau a'r hyfforddiant mae staff wedi caffael ar gyfer eu swyddogaethau a'u rolau unigol yn eu galluogi i ddarparu cefnogaeth o ansawdd uchel i ddisgyblion.
123. Mae'r cydlynedd ADY yn gweinyddu'r ddarpariaeth gydag arbenigedd amlwg. Ceir nodweddion arbennig yn rheolaeth y ddarpariaeth sydd yn annog pob cydweithiwr i fod yn bartner llawn a gweithredol wrth gefnogi'r disgyblion sydd ag ADY. Caiff yr holl brosesau eu dogfennu'n dda, a'r ddarpariaeth a'r cynnydd

eu cofnodi'n eglur. Gwna'r disgyblion gynnydd da yn berthynol i'w gallu a chyfnod eu datblygiad.

124. Darperir cefnogaeth dda gyda ffocws pendant mewn sesiynau neilltuo grŵp a chaiff eu harwain yn effeithiol iawn gan gymhorthydd ADY profiadol. Cynigir cymorth hefyd i'r disgyblion yma yn eu grwpiau yn y dosbarth. Mae hwn yn arfer dda.
125. Caiff y disgyblion bob cyfle i fanteisio ar y cwricwlwm a chânt eu hintegreiddio'n llwyr ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda rhieni a chyrrff allanol er mwyn adolygu'r cynnydd a wneir gan y disgyblion ac wrth gyflawni anghenion dynodedig. Mae dealltwriaeth dda o ddarpariaeth yr ysgol gan y llywodraethwr dynodedig ar gyfer ADY.
126. Mae cyngor yr ysgol yn gweithio'n effeithiol. Caiff y cyfle i weithredu fel aelod o gyngor yr ysgol ei werthfawrogi gan ddisgyblion ac mae'n hyrwyddo eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau'r ysgol sy'n effeithio arnynt.
127. Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a chroesawgar ac mae ei pholisïau a'i harferion yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac amryfaldeb yn effeithiol iawn. Mae polisi cydraddoldeb hiliol yr ysgol yn bodloni'r gofynion cyfredol a chaiff y llywodraethwyr eu diweddarau'n rheolaidd.
128. Caiff disgyblion eu haddysgu i werthfawrogi a pharchu amrywiaeth. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cynhaliaeth a chyfarwyddyd yn cydnabod cefndiroedd ac anghenion amrywiol y disgyblion. Mae'r disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd parch a goddefgarwch a'r angen amdanynt trwy eu gwaith cwricwlaidd a'r gwasanaethau ysgol. Caiff bechgyn a merched gyfleoedd cyfartal i fanteisio ar holl weithgareddau'r ysgol. Cynigir cyfleoedd da i hwyrddyfodiaid i fanteisio ar gyrsiau Cymraeg yn y Ganolfan Iaith am ddau ddiwrnod yr wythnos am dymor.
129. Mae gan yr ysgol Gynllun Cydraddoldeb Anabledd a chynllun gweithredu sy'n amlinellu'r cwricwlwm a ddarperir, yn darparu gwybodaeth am y ddarpariaeth gyffredinol, ac yn nodi cynlluniau i wella'r ddarpariaeth ymhellach.

## **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

### **Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?**

#### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

130. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â dyfarniad Gradd 1 yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Cydnabyddir nodweddion rhagorol ond arenwir ychydig o agweddau ar y ddarpariaeth sy'n annatblygedig.
131. Ceir ymdeimlad cyffredin o bwrpas ymhlith staff a llywodraethwyr yr ysgol i ddarparu'r gorau ar gyfer y disgyblion. Mae'r ymdeimlad cryf o bwrpas a rennir, a'r ethos o gydweithio agos fel tîm, yn nodwedd ragorol.
132. Arweinir yr ysgol gyda gweledigaeth a chyfeiriad cadarn gan bennaeth profiadol. Mae'n cynnig cyfeiriad clir a llwyddiannus trwy werthoedd, nodau ac amcanion sy'n gwbl ddealladwy i bawb sydd yn ymwneud â darparu addysg ar gyfer y disgyblion. Rhoddir blaenoriaeth uchel i godi safonau cyflawniad disgyblion ac i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol, a'u medrau dysgu.

133. Mae'r pennaeth yn glir iawn am gyfeiriad yr ysgol i'r dyfodol i sicrhau gwelliant pellach. Mae'r cydweithio effeithiol gyda'r dirprwy a'r staff wedi'i seilio ar ymddiriedaeth a pharch. Sicrheir bod gan bob aelod o staff gyfraniad i'w wneud. Mae'r dirprwy bennaeth yn darparu cefnogaeth effeithiol ac yn fodel rôl da ar gyfer cydweithwyr.
134. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys datblygu'r fenter Ysgol Iach a'r rhaglen ABCh. Mae'r cyngor ysgol yn gweithio'n llwyddiannus ac yn cynorthwyo'r disgyblion i gyfrannu at y penderfyniadau sydd yn effeithio arnynt. Mae'r ysgol yn llwyddo i godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd ac mae wedi ennill Marc Ansawdd yr Asiantaeth Medrau Sylfaenol. Mae'r gwariant diweddar ar adnoddau TG newydd yn cyfrannu at safonau da o fewn yr ysgol. Mae staff y Blynyddoedd Cynnar yn gweithredu argymhellion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Rhoddir sylw da i ddatblygiad proffesiynol y staff a llwyddwyd i ennill achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl.
135. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o bartneriaethau, gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd y cylch, ar fentrau megis hyfforddiant staff, cynlluniau pontio a gweithgareddau cwricwlaidd.
136. Cyflawna'r athrawon eu cyfrifoldebau cwricwlaidd a rheolaethol yn effeithiol. Maent yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau monitro ac arfarnu'n gydwybodol ac yn cefnogi ei gilydd yn dda. Er hyn, nid oes sylw digon cyson i arfarnu safonau cyflawniad y disgyblion yn y prosesau a ddefnyddir.
137. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad ar waith ac maent yn bodloni gofynion cenedlaethol. Maent yn cynnwys gwerthusiadau o waith aelodau staff sydd yn cyfrannu'n effeithiol at eu datblygiad proffesiynol ac at ddatblygiad y CDY.
138. Mae prosesau addas ar gyfer gosod targedau i ddisgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol. Seilir y targedau ar berfformiad tebygol pob disgybl ac maent yn dargedau cyraeddadwy. Mae'r staff yn dadansoddi canlyniadau'r ysgol yn asesiadau'r CC briodol yn ôl deilliannau sirol a chenedlaethol ac maent yn cyflwyno strategaethau er mwyn sicrhau gwelliannau.
139. Mae'r corff llywodraethol yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau rheolaethol a chyfreithiol yn effeithiol. Mae'r aelodau yn trafod pob agwedd ar waith yr ysgol yng nghyfarfodydd y corff llawn a'i is-bwyllgorau. Maent wedi mabwysiadu polisïau rheolaethol priodol ac maent yn mynychu'r cyrsiau hyfforddiant a drefnir gan yr AALI. Derbyniant arweiniad y pennaeth a swyddogion addysg yr AALI ar faterion proffesiynol.
140. Mae rôl y llywodraethwyr wrth fonitro'r ddarpariaeth yn datblygu'n briodol drwy dderbyn adroddiadau gan y pennaeth. Mae gan lywodraethwyr unigol gyfrifoldebau am bynciau ac maent yn cyfarfod â'r cydlynwyr sy'n gyfrifol. Cânt wybod am bolisi ac arfer ac maent yn adrodd yn ôl ar lafar i'r corff llywodraethol llawn. Nid yw eu rôl o ran monitro safonau cyflawniad wedi'i datblygu'n ddigonol.

## **Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?**

### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

141. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â dyfarniad Gradd 1 yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Ni welwyd nodweddion digonol o ansawdd rhagorol yn y ddarpariaeth ac arenwyd un agwedd ar arfarnu safonau sy'n annatblygedig.
142. Mae ymrwymiad clir ymysg y pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr i godi safonau. Mae diwylliant o hunan arfarnu wedi ei hen sefydlu yn yr ysgol gyda gweithdrefnau effeithiol sydd yn gynhwysfawr ac wedi eu seilio ar ystod eang o dystiolaeth. Sefydlwyd rhaglen fonitro eglur, a sicheir bod monitro'r pynciau craidd a sylfaen yn rhan greiddiol ohoni.
143. Rhannwyd cyfrifoldebau datblygu pynciol ymhlith y staff addysgu ac mae'r cydlynwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau cynllunio, ymgynghori a chynnal yn effeithiol. Maent yn llunio barnau eglur am ansawdd y ddarpariaeth yn eu meysydd cyfrifoldeb yn dilyn trafodaethau â disgyblion a staff, ac archwilio gwaith disgyblion. Er hynny, nid yw'r pwyslais ar arfarnu safonau cyflawniad y disgyblion yn ffocws cyson.
144. Mae'r adroddiad hunan arfarnu, a luniwyd gan yr ysgol, yn gynhwysfawr a chlr. Mae'r ddogfen wedi ei seilio'n addas ar fframwaith yr arolygiad ac mae'r sylwadau yn defnyddio tystiolaeth addas, megis gweithdrefnau, cofnodion a dogfennaeth yr ysgol. Cytunodd y tîm arolygu â barnau'r ysgol mewn pump allan o'r saith cwestiwn allweddol. Ym mhob achos lle mae gwahaniaeth, dyfarnodd y tîm arolygu radd is na'r Gradd 1 a ddyfarnwyd gan yr ysgol gan fod rhai diffygion yn y ddarpariaeth.
145. Trwy drafodaethau helaeth, mae'r staff a'r llywodraethwyr wedi cyfrannu at y ddogfen sy'n crynhoi canfyddiadau hunan arfarnu'r ysgol. Sefydlwyd trefniadau priodol i alluogi'r rhieni a'r disgyblion eu hunain i fynegi barn a chynnig awgrymiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig ar ansawdd y ddarpariaeth.
146. Mae'r pennaeth yn cynnal dadansoddiad manwl o asesiadau'r CC a phroffion ysgol. Caiff canlyniadau asesiadau'r CC eu dadansoddi yn ôl deilliannau sirol a chenedlaethol. Gyda chymorth swyddog addysg yr AALI, gosodir targedau priodol ar gyfer gwella o ganlyniad i'r dadansoddi hwn. Mae data'r ysgol yn dangos bod yr ysgol yn llwyddo i gyflawni'r targedau a osodwyd.
147. Mae'r CDY, sy'n gynllun tair blynedd, yn ddogfen effeithiol. Mae'r blaenoriaethau a nodir ynddi yn rhai cyfredol a chyflawnwyd nifer ohonynt yn barod. Defnyddir prosesau priodol er mwyn gosod targedau addas, a dadansodda'r pennaeth a'r corff llywodraethol weithrediad y cynlluniau gweithredu yn effeithiol. Gwneir cynnydd cyson wrth fynd i'r afael â'r prif dargedau a osodwyd, a gwelir gwelliannau mewn meysydd megis datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ac ADY a gwella'r cyflenwad o offer TGCh. Mae cysylltiadau clir yn datblygu rhwng canfyddiadau'r broses hunan arfarnu a blaenoriaethau'r CDY.
148. Mae cynlluniau gweithredu'r CDY yn cynnwys targedau eglur, costiadau cyffredinol, amserlenni a meini prawf ar gyfer mesur llwyddiant. Caiff y gyllideb ei rheoli'n ofalus ac fe gysylltir gwariant yn agos â phrif flaenoriaethau'r ysgol.

149. Mae'r ysgol wedi rhoi sylw da i'r materion i weithredu arnynt a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol. Llwyddwyd i wella cynnydd a chyflawniad y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn eu defnydd o Gymraeg ar draws y cwricwlwm, mae'r CDY yn cynnwys cynlluniau a thargedau tymor hir, ac mae rhaglen fonitro yn weithredol.

### **Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?**

#### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

150. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
151. Mae nifer yr athrawon yn ddigonol ar gyfer maint yr ysgol ac mae ganddynt gymwysterau addas ar gyfer yr ystod oed y maent yn eu haddysgu. Cymer yr athrawon gyfrifoldeb am addysgu dosbarthiadau ac am gydlynu eu pynciau arbenigol.
152. Lleisiwyd pryder yn y cyfarfod rhieni ynghylch y trefniant addysgu yn un o'r dosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 2 sy'n cael ei addysgu gan fwy nag un athro yn ystod yr wythnos. Yn ystod yr arolygiad, ni welwyd tystiolaeth fod y trefniant yn amharu ar ddatblygiad y disgyblion. Mae'r pennaeth yn ymwybodol y dylid monitro'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod y cydgynllunio a'r cydweithio rhwng yr athrawon hynny yn parhau.
153. Mae'r pedwar cynorthwy-ydd dysgu, llawn amser a rhan amser, yn cynnig cynhaliadaeth dda iawn mewn gwahanol ddsosbarthiadau yn yr ysgol. Mae'r cynorthwy-ydd addysg arbennig llawn amser hefyd yn cynnig cymorth o safon uchel i ddisgyblion ag ADY naill ai o fewn y dosbarth neu mewn grwpiau bychain. Mae'r hyfforddwyr cerdd ac addysg gorfforol sy'n ymweld â'r ysgol yn gwneud cyfraniad da yn eu meysydd arbenigol.
154. Mae'r gweinyddydd rhan-amser a'r staff ategol yn gweithio'n effeithlon er mwyn sicrhau bod gweinyddiaeth feunyddiol yr ysgol yn mynd rhagddi'n effeithiol.
155. Mae gan staff ddisgrifiadau swydd addas a cheir ymrwymiad i ddilyn rhaglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus i holl staff yr ysgol. Fe'i harweinir gan fentrau lleol a chenedlaethol, y CDY ac anghenion datblygiad athrawon unigol. Mae'r addysgu da a welir yn yr ysgol yn adlewyrchu effaith gadarnhaol agweddau ar y cyrsiau hyfforddiant a fynychwyd megis datblygu medrau TGCh y disgyblion.
156. Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i ofynion ailfodelu'r gweithlu. Mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau amser cynllunio, paratoi ac asesu i'r athrawon yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae hyn wedi arwain at wella'r ddarpariaeth addysgol yn gyffredinol ac at wneud defnydd o arbenigeddau athrawon.
157. Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau dysgu o ansawdd da. Cânt eu defnyddio'n effeithiol i gynnal amcanion gwersi. Mae athrawon a disgyblion yn gwneud defnydd da o fyrddau gwyn rhyngweithiol yr ysgol a gwneir defnydd da iawn hefyd o'r 16 o gluniaduron newydd. Yn briodol, mae'r ysgol wedi nodi ei bwriad i werthuso effeithiolrwydd y drefniadaeth bresennol er mwyn sicrhau datblygiad cyson o ddsosbarth i ddsosbarth ac ar draws y cwricwlwm. Mae gan y

llyfrgelloedd dosbarth gyflenwad ac ystod digonol o lyfrau, a gwneir defnydd da o'r llyfrgell ganolog fel adnodd dysgu.

158. Mae lle digonol yn yr adeilad ar gyfer cyflwyno holl ofynion y CC. Mae'r adeilad mewn cyflwr da iawn ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'i chyfrifoldeb at ddysgwyr anabl ac mae'r adeilad yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn.
159. Caiff waliau ystafelloedd dosbarth a llecynnau canolog yr ysgol eu cyfoethogi gan arddangosfeydd deniadol a lliwgar ac enghreifftiau o waith a chyflawniadau disgyblion.
160. Rhoddwyd sylw da i wella'r amgylchedd awyr agored trwy fentrau megis creu gardd a phlannu coed. Mae'r ysgol wedi nodi ei bwriad i ddatblygu tir yr ysgol ymhellach er mwyn darparu adnoddau addas ar gyfer dysgu rhyngweithiol y Cyfnod Sylfaen a chreu cynefinoedd amrywiol ar gyfer gwaith ymchwilio.
161. Mae'r ysgol yn sicrhau bod yr adnoddau a brynir yn cyfateb i'w blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Mae'r swm o arian sydd mewn llaw wedi'i glustnodi'n briodol ar gyfer gwella'r cyfleusterau dysgu tu allan. Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn adolygu'r defnydd o adnoddau yn gyson gyda chymorth yr AALL i sicrhau gwariant effeithiol o fewn cyfyngiadau'r gyllideb. Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## **Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu**

### **Cymraeg iaith gyntaf**

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

#### **Nodweddion da**

162. Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r disgyblion yn gwrando'n dda ar gyflwyniadau'r athrawon ac ar ei gilydd. Ymatebant yn dda wrth ateb cwestiynau a mynegant eu syniadau a'u barn yn hyderus. Mae nifer o unigolion yn cynnig sylwadau estynedig.
163. Mae medrau darllen mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n dda. Llwydda'r mwyaf galluog yn Blwyddyn 1 (B1) i ddarllen yn ddidrafferth a dangosant eu bod yn adnabod cymeriadau mewn storïau. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen yn gywir. Gallant ddisgrifio ac ymateb i gymeriadau sy'n eu llyfrau, gan fynegi barn syml am yr hyn a ddarllenant.
164. Mae'r disgyblion yn ysgrifennu i wahanol ddibenion. Maent i gyd yn ysgrifennu eu newyddion eu hunain gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, gall y disgyblion mwy galluog ailysgrifennu storïau cyfarwydd yn hyderus, gan sillafu ac atalnodi gyda gradd dda o gywirdeb.
165. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau gwrando'r disgyblion yn dda iawn. Maent yn gwrando'n astud ar eu hathrawon a'u cyd-ddisgyblion ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig. Gallant ddwyn i gof yn dda yr hyn y maent wedi ei glywed. Maent yn barod i gynnig sylwadau gwreiddiol a barn eu hunain ar y testun dan sylw. Mae medrau llafar rhai unigolion yn rhagorol.

Ymatebant yn ddeallus i gwestiynau a chynigiant sylwadau estynedig yn ddigymell.

166. Mae safonau darllen yn dda ar draws y cyfnod allweddol gydag unigolion yn cyrraedd safon uchel. Darllena'r mwyafrif yn rhugl, gan ddefnyddio goslef a mynegiant wrth ddarllen yn uchel. Mae gan unigolion hoff awduron ac mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn gwybod o ba ffynhonnell y gellir dod o hyd i wybodaeth.
167. Mae'r disgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig amrywiol i wahanol bwrpasau. Gallant atalnodi eu gwaith yn briodol a gwnânt ddefnydd da o eiriaduron er mwyn gwella cywirdeb eu hysgrifennu. Dengys y disgyblion ddiddordeb mewn ysgrifennu barddoniaeth a defnyddiant ddelweddau a chymariaethau yn effeithiol. Cynhyrcha'r ysgrifenydd mwyaf galluog ddarnau estynedig sy'n ddiddorol a dychmygus. Mae mwyafrif y disgyblion wedi datblygu llawysgrifen raenus.

### **Diffygion**

168. Yng nghyfnod allweddol 1, mae medrau gwranddo, darllen ac ysgrifennu lleiafrif y disgyblion yn annatblygedig.
169. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gwaith ysgrifenedig lleiafrif y disgyblion yn arddangos gwallau cystrawen a sillafu.

<b>Mathemateg</b>
-------------------

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### **Nodweddion da**

170. Yng nghyfnod allweddol 1, gall y disgyblion adio a thynnu rhifau i ffwrdd i fyny at 20 ac mae ganddynt afael gadarn ar fondiau rhif. Maent yn gallu dyblu a haneru rhifau syml yn rhwydd ac maent yn adnabod dilyniannau rhif, gan gynnwys odrifau ac eilrifau.
171. Gall y disgyblion hynaf gyfrif ymlaen ac yn ôl mewn camau o wahanol feintiau, gan arddangos ymwybyddiaeth sicr o batrymau rhif. Mae dealltwriaeth y disgyblion mwy galluog o werth lle yn dda.
172. Mae'r disgyblion yn adnabod siapau dau-ddimensiwn ac yn disgrifio'u nodweddion yn dda. Mae disgyblion mwy galluog yn adnabod ffracsiynau syml a gallant ddweud yr amser ar yr awr a'r hanner awr yn hyderus. Maent yn gwybod gwerth darnau arian gwahanol ac yn eu defnyddio'n gywir i gyfrifo symiau bychain o arian wrth ymwneud â gemau siopa.
173. Gall y disgyblion hynaf gasglu ac arddangos gwybodaeth ar ffurf graffiau yn gywir. Gallant drafod eu casgliadau yn synhwyrol.
174. Yng nghyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth y disgyblion o werth lle, gan ddefnyddio rhifau hyd at bedwar digid, yn gadarn. Mae'r mwyafrif yn ymdrin â phrosesau adio, tynnu, lluosu a rhannu yn effeithiol ar bapur. Mae ganddynt ddealltwriaeth sicr o ffracsiynau ac mae gan ddisgyblion B5 a B6 ddealltwriaeth dda o'r cysylltiad rhwng ffracsiynau, canrannau a degolion.

175. Gall disgyblion ddynodi nodweddion a phriodweddau siapau dau a thri-dimensiwn ac mae disgyblion B5 a B6 yn dangos gwybodaeth dda o onglau. Ar lefel eu datblygiad, gall y disgyblion amcangyfrif a mesur yn gywir a dewis pa unedau mesur sydd eu hangen mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r disgyblion yn gyfarwydd â chysyniad amser a'r cloc 12 a 24 awr a gallant ddatrys problemau yn ymwneud â threigl amser yn gywir.
176. Mae'r disgyblion yn casglu data at wahanol ddibenion ac yn cofnodi'n drefnus, gan ddefnyddio tablau a graff bloc. Maent yn dadansoddi ac yn dehongli'r data yn effeithiol. Gall disgyblion mwy galluog B5 a B6 lunio taenlenni o safon uchel, a medrant ddehongli'r wybodaeth yn hyderus a chyflwyno'r wybodaeth mewn amrywiol ffyrdd.

### **Diffygion**

177. Yn y ddau gyfnod allweddol, nid oes gan leiafrif y disgyblion ystod digonol o strategaethau mathemateg pen ar gyfer datrys problemau rhif.

### **Gwyddoniaeth**

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

#### **Nodweddion da**

178. Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r disgyblion yn gwybod y gwahaniaeth rhwng pethau byw a phethau nad ydynt erioed wedi bod yn fyw. Gallant enwi rhannau'r corff yn gywir a gwyddant yn dda am brif nodweddion a phwrpas eu synhwyrau.
179. Gall y disgyblion hynaf drafod cylch bywyd nifer o anifeiliaid yn gywir. Maent yn adnabod y gwahanol ddarnau mewn planhigyn, a thrwy eu hymchwiliadau yn gwybod yr hyn sydd angen ar blanhigion i ffynnu. Mae'r disgyblion hynaf yn gyfarwydd â phriodweddau deunyddiau gwahanol a defnyddiant dermau cywir i'w disgrifio.
180. Mae'r disgyblion yn cynnal ymchwiliadau yn effeithiol a gall y mwyafrif drafod a chofnodi eu harsylwadau yn dda. Maent yn cynnig eu syniadau eu hunain ac yn gwneud rhagfynegiadau syml o'r canlyniadau disgwylidig. Disgrifiant yn dda sut y gellir defnyddio gwahanol brosesau, megis gwresogi neu rewi, i newid deunyddiau.
181. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth sicr o gylchedau trydanol a gwyddant fod rhai defnyddiau'n well nag eraill am ddargludo neu ynysu trydan. Gallant adnabod prif nodweddion deunyddiau a phriodoli hynny â'u defnydd.
182. Mae gan y disgyblion wybodaeth gadarn am brosesau bywyd a phethau byw. Deallant ystyr diet cytbwys a gallant egluro pa fwydydd sy'n ofynnol er mwyn tyfu'n iach. Maent yn deall yn dda effaith ymarfer corff ar gyfradd curiad y galon.
183. Mae gan fwyafrif y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'r hyn sydd yn ofynnol ar gyfer gwneud prawf teg a'r angen am fesuriadau manwl-gywir. Trafodant eu hymchwiliadau yn dda gan gynnig casgliadau synhwyrol. Defnyddiant dermau gwyddonol yn gywir.

184. Cyflwyno'r disgyblion eu canfyddiadau yn drefnus, gan ddefnyddio ysgrifennu, diagramau, tablau a graffiau pwrpasol. Defnyddia'r disgyblion hynaf eu medrau TGCh yn effeithiol i gynorthwyo'u hymchwiliadau.

### Diffygion

185. Yng nghyfnod allweddol 1, annatblygedig yw gallu lleiafrif o'r disgyblion i drafod eu hymchwiliadau.

### Technoleg Gwybodaeth

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### Nodweddion da

186. Yng nghyfnod allweddol 1, mae medrau prosesu geiriau'r disgyblion yn datblygu'n dda. Gallant ysgrifennu brawddegau a'u hargraffu yn gywir. Defnyddiant raglen *Textease* yn eu gwaith thema ar fwyd, gan gynhyrchu lluniau a brawddegau, a llyfrynnau deniadol.

187. Mae'r disgyblion yn defnyddio rhaglenni paent yn fedrus gan greu lluniau o safon dda. Defnyddiant raglenni *My World* a *Starting Graphs* yn effeithiol i gofnodi data a chreu graffiau yn ymwneud â'u gwaith thema.

188. Mae disgyblion B2 yn defnyddio'r camera digidol yn hyderus, gan dynnu lluniau o'u hymweliad â'r hen ysgol, eu llawrlwytho a'u hargraffu yn gywir i greu arddangosfa ddeniadol o luniau.

189. Yng nghyfnod allweddol 2, defnyddia mwyafrif y disgyblion offer a meddalwedd yn bwrpasol. Gwna disgyblion B5 a B6 ddefnydd da o'u medrau, gan weithio'n annibynnol a chyda'i gilydd ar dasgau penodol.

190. Gall y disgyblion lwytho, cadw, adalw ac argraffu eu gwaith yn gywir. Defnyddiant eu medrau prosesu geiriau yn effeithiol i gofnodi eu gwaith, ei achub mewn ffolderi unigol ac argraffu copïau terfynol o'u gwaith ysgrifenedig. Gallant ail ddrافتio gwaith a mewnosod lluniau i ddarlunio eu storiâu yn effeithiol. Defnyddiant raglenni prosesu, megis *Publisher*, yn fedrus i argraffu posteri, erthyglau a thudalen flaen papur newyddion.

191. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae medrau trin data'r disgyblion yn datblygu'n dda. Yn rhan uchaf y cyfnod allweddol, gallant lunio cronfa ddata a chynhyrchu graffiau amrywiol i arddangos y data yn hyderus. Yn gysylltiedig â'u hymchwiliadau yng ngwyddoniaeth a mathemateg, mae'r disgyblion yn cynhyrchu taenlenni o safon uchel, dehongli'r wybodaeth yn ystyrion a chyflwyno'r wybodaeth mewn amrywiol ffyrdd.

192. Mae'r disgyblion yn defnyddio'r camera digidol a fideo yn hyderus gan gyfuno y gwahanol agweddau i greu cyflwyniadau byr ar ffurf *Power Point*. Cynhyrchwyd ffilm fideo fer yn ymwneud â phropaganda yn ystod yr Ail Ryfel Byd, gyda'r disgyblion yn scriptio, actio, defnyddio'r offer a'i golygu yn hyderus. Gallant hefyd greu cartwnau yn effeithiol, gan ddefnyddio rhaglenni priodol i animeiddio'r broses o adeiladu tŷ Celtaidd.

193. Defnyddia disgyblion y Rhyngrwyd yn effeithiol i ymchwilio testunau sy'n gysylltiedig â'u hastudiaethau mewn pynciau eraill.

## Diffygion

194. Yng nghyfnod allweddol 1, nid yw lleiafrif y disgyblion yn datblygu ac ymarfer eu medrau yn gyson ar draws y cymwysiadau.

## Hanes

### **Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### **Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

#### **Nodweddion da**

195. Yng nghyfnod allweddol 1, mae disgyblion yn arddangos dealltwriaeth gynyddol o gronoleg. Maent yn ymwybodol o drefn diwrnod, wythnos a blwyddyn. Defnyddiant y termau cywir wrth ddisgrifio treigl amser ac maent yn medru ymdrin yn ddeallus â llinellau amser.
196. Mae gan y disgyblion wybodaeth dda o newid dros amser wrth iddynt drafod gwrthrychau o'r gorffennol a'u cymharu gyda'r presennol. Gallant wahaniaethu rhwng yr hen a'r newydd yn gywir. Drwy edrych ar luniau a ffotograffau ac ymweld â'r hen ysgol, gallant gymharu y gwahaniaethau'n dda rhwng yr ysgol heddiw ac yn y gorffennol. Medrant ddwyn i gôf nifer o ffeithiau cywir am yr hen ysgol a diwrnod ar lan y môr 'slawer dydd'.
197. Mae gan ddisgyblion Blwyddyn 2 (B2) wybodaeth gyffredinol am rai pobl enwog yn hanes Cymru, megis Jemeima Niclas a Dewi Sant, ac am chwedlau sy'n gysylltiedig â'u hardal.
198. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y disgyblion wybodaeth ffeithiol dda am hanes lleol a thrafodant hyn gyda brwdfrydedd. Trafodant dai a chartrefi ac amodau byw pobl o'r gorffennol a chymharant yr amgylchiadau hyn yn dda gyda'r presennol. Gallant leoli cyfnodau yn gywir ar linell amser.
199. Mae gan ddisgyblion B3 a B4 wybodaeth dda am y Celtiaid, a thrwy eu hastudiaethau a'u hymweliad â Chastell Henllys gallant ddisgrifio eu dull o fyw yn fanwl a'r math o arfau a chelfi a ddefnyddiwyd ganddynt. Yn eu hastudiaeth o gyfnod y Tuduriaid, dangosant ddealltwriaeth effeithiol iawn o nifer o elfennau yn ymwneud â bywyd bob dydd a phrif ddirgwyddiadau'r cyfnod.
200. Dengys disgyblion B5 a B6 ddealltwriaeth dda o agweddau ar fywyd yn ystod Oes Fictoria gan gynnwys cefndir y cyfnod, bywyd plant a bywyd ysgol. Trafodant yn dda effaith yr Ail Ryfel Byd ar unigolion, teuluoedd a'r ardal yn gyffredinol. Dangosant fedrau ymchwil da iawn wrth wneud defnydd effeithiol o dystiolaeth ddogfennol i ehangu eu dealltwriaeth o'r cyfnod. Cofnodant eu harsylwadau yn effeithiol iawn ar ffurf ysgrifennu, celf, fideo a TGCh.

## Diffygion

201. Yng nghyfnod allweddol 1, nid yw gallu'r disgyblion i ddefnyddio ystod o ffynonellau i wneud ymholiadau hanesyddol wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

## Cerddoriaeth

### Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

#### Nodweddion da

202. Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r disgyblion yn canu amrywiaeth priodol o ganeuon, gan gynnwys cerdd dant. Canant yn swynol a dangosant ymwybyddiaeth dda o ddynmeg a thraw yn eu perfformiadau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae ansawdd lleisiol disgyblion yn dda iawn. Canant amrywiaeth eang o ganeuon mewn unllais a deulais a rhoddant sylw parhaus i elfennau megis ynganu, anadlu a dynmeg.
203. Yng nghyfnod allweddol 1, mae disgyblion yn gwranddo'n dda ar gerddoriaeth, megis *Peter and the Wolf*, a gallant gynnig barn syml ar yr elfennau sydd yn apelio atynt. Cofnodant eu syniadau yn dda ar ffurf lluniau. Maent yn adnabod synau offerynnau cyfarwydd a gallant eu henwi yn gywir. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o rai elfennau cerdd a gallant wahaniaethu yn gywir rhwng seiniau uchel ac isel, a chryf a thawel.
204. Fel ymateb i'r stori, cyfansodda'r disgyblion ddilyniant diddorol yn fyrfyfyr i gyfleu eu hoff anifail neu gymeriad. Dewisant eu hofferynnau yn ofalus a defnyddiant hwy yn dda i berfformio eu gwaith. Gwerthusant a chynigiant sylwadau synhwyrol am eu cyfansoddiadau a'u perfformiadau. Defnyddia'r disgyblion mwy galluog dermau cerdd yn gywir.
205. Trwy ystod o weithgareddau, gall y disgyblion gynnal curiad cywir yn llwyddiannus ac ailadrodd rhythm yn dda. Gallant greu sgôr syml i gyfleu curiadau y storm, glaw, cesair a mellt yn effeithiol.
206. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol a hyderus i gyfansoddi dilyniannau diddorol fel ymateb i wahanol ysgogiadau. Arbrofant yn dda gydag offerynnau a ffynonellau gwahanol a chofnodant rhai o'u cyfansoddiadau ar ffurf sgôr graffig. Maent yn adnabod hen nodiant a gwerth nodau sylfaenol yn dda.
207. Arbrofa'r disgyblion yn gyson gydag offerynnau er mwyn creu cyfansoddiadau effeithiol. Cyn perfformio eu cyfansoddiadau, eglurant yn ofalus yr hyn a geisiant ei ddarlunio a'i gyfleu. Awgrymant sut y gellir gwella y gwaith yn dda. Maent yn ymwybodol o eirfa cerddoriaeth ac yn y gwaith gorau ymatebant yn gywir i eirfa ddisgrifiadol cerddoriaeth wrth berfformio'n fyrfyfyr ac wrth gofnodi agweddau ar eu gwaith.
208. Mae cyfansoddiad a pherfformiad y disgyblion o'u gwaith 'Global Warming Rap' yn enghraifft dda o ddefnydd effeithiol o ystod o fedrau cerddorol. Yn y ddau gyfnod allweddol, defnyddia'r disgyblion raglenni cyfrifiadurol yn llwyddiannus i gyfansoddi ac i recordio eu gwaith.
209. Mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wybodaeth gywir am rai cyfansoddwyr enwog a thrafodant nodweddion eu gwaith yn effeithiol.
210. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dysgu canu'r recorder ac arddangosant ymwybyddiaeth briodol o nodiant ac amseriad wrth ddilyn y sgôr.

## Diffygion

211. Nid oes diffygion arwyddocaol.

## Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Dymuna staff, llywodraethwyr a disgyblion Ysgol Bro Inqli ddiolch i'r tîm arolygu am fynd i'r afael â'i ddyletswyddau mewn modd cwrtais a phroffesiynol. Roedd y broses o arolygu yn drwyadl a chafwyd adborth positif a chlr i'r dyfodol ar gyfer datblygiad yr ysgol.

Rydym yn falch iawn o gasgliadau'r arolygiad ac yn fodlon fod yr adroddiad yn cyfiawnhau ein barn fod llawer o nodweddion da iawn yn cael eu hamlygu ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Gwerthfawrogwn fod yr adroddiad yn amlygu ethos gofalgwr yr ysgol, y berthynas waith arbennig sydd rhwng athrawon a disgyblion ac agwedd ac ymddygiad positif ein disgyblion. Rydym yn ymfalchïo yn ein darpariaeth sy'n sicrhau profiadau dysgu cyfoethog i'n disgyblion ac yn falch fod yr agwedd hon yn cael lle amlwg a phositif yn yr adroddiad. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu y cynnydd rhagorol y gwna disgyblion yn ei sgiliau personol a chymdeithasol. Gwerthfawrogwn y gydnabyddiaeth a roddir i bartneriaeth yr ysgol a'r rhieni, y gymuned leol ac ysgolion eraill, ac i'r staff brwdfrydig ac effeithiol sydd yn gweithio o fewn yr ysgol.

Mae'r arolygiad wedi rhoi cyfle i'r ysgol edrych yn ofalus ar bob agwedd o'i gwaith a'i bywyd. Caiff ein cryfderau eu hatgyfnerthu a nodir meysydd i'w datblygu ymhellach.

Bydd yr ysgol yn rhannu ei chynllun datblygu gyda rhieni mewn ymateb i argymhellion y tîm arolygu. Bydd adroddiad blynyddol y corff llywodraethol yn adrodd nôl ar y cynnydd a wneir.

## Atodiad 1

### Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Bro Inqli
Math o ysgol	Meithrin a Chynradd
Ystod oedran y disgyblion	3-11
Cyfeiriad yr ysgol	Heol Hir Trefdraeth Sir Benfro
Cod post	SA42 0TL
Rhif ffôn	01239 830682

Pennaeth	Miss C M A James
Dyddiad penodi	Medi 1997
Cadeirydd y llywodraethwyr	Mr N Dowsett
Arolygydd cofrestredig	Miss D Morris
Dyddiadau'r arolygiad	21-23 Ebrill 2008

## Atodiad 2

### Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	6.5	8	14	16	16	12	8	17	97.5

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	4	3	4.92

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	18.5:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	-
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	-
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	22.75
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.23:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Haf 2007	82%	93%	95%
Hydref 2007	36%	88%	93.5%
Gwanwyn 2008	72%	88%	96%

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	5.5%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

### Atodiad 3

#### Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2007			Nifer y disgyblion yn B2		16		
Canran y disgyblion ar bob lefel							
			D	W	1	2	3
Cymraeg	Aseiad	Ysgol	0	0	6	75	19
	athro	Cenedlaethol	0	2	10	63	26
Cymraeg: llafaredd	Aseiad	Ysgol	0	0	6	63	31
	athro	Cenedlaethol	0	2	10	63	26
Cymraeg: darllen	Aseiad	Ysgol	0	0	6	81	13
	athro	Cenedlaethol	0	2	15	59	23
Cymraeg:	Aseiad	Ysgol	0	0	25	63	13
ysgrifennu	athro	Cenedlaethol	0	3	19	66	12
Mathemateg	Aseiad	Ysgol	0	0	0	81	19
	athro	Cenedlaethol	0	2	11	65	22
Gwyddoniaeth	Aseiad	Ysgol	0	0	0	88	13
	athro	Cenedlaethol	0	1	9	66	24

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	94%	Yng Nghymru	80%

#### Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2007			Nifer y disgyblion yn B6		15						
Canran y disgyblion ar bob lefel											
			D	A	F	W	1	2	3	4	5
Saesneg:	Aseiad	Ysgol	0	0	0	0	0	7	7	67	20
	Athro	Cenedlaethol	0	0	0	0	1	4	16	50	29
Cymraeg	Aseiad	Ysgol	0	0	0	0	0	0	20	67	13
	Athro	Cenedlaethol	1	0	0	1	1	4	18	50	25
Mathemateg	Aseiad	Ysgol	0	0	0	0	0	7	20	60	13
	Athro	Cenedlaethol	0	0	0	0	1	3	15	50	30
Gwyddoniaeth	Aseiad	Ysgol	0	0	0	0	0	7	7	80	7
	Athro	Cenedlaethol	0	0	0	0	0	2	12	53	32

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	73%	Yng Nghymru	74.1%

- D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono  
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb  
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb  
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

## Atodiad 4

### Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Arolygwyd yr ysgol dros gyfnod o chwe diwrnod arolygydd gan dîm o dri arolygydd. Roedd enwebai ac asesydd cymheiriaid yn rhan o'r tîm arolygu hefyd.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn-arolygiad gyda'r staff, rhieni a'r corff llywodraethol i drafod bywyd a gwaith yr ysgol.
- Llenwyd deg o holiaduron gan rieni, a chawsant eu dadansoddi'n ofalus; roedd mwyafrif yr ymatebion yn rhai cadarnhaol.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r pennaeth, y staff â chyfrifoldebau penodol a'r staff cymorth.
- Archwiliwyd dogfennaeth yr ysgol.
- Arolygwyd 21 o wersi, yn ogystal â rhannau eraill o sesiynau addysgu.
- Gwrandawodd yr arolygwyr ar ddisgyblion o'r ystod gallu cyfan yn darllen.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r disgyblion am eu gwaith a bywyd yr ysgol.
- Arsylwyd ymddygiad y disgyblion yn ystod amserau egwyl, amser cinio ac ar ddechrau a diwedd sesiynau'r ysgol.
- Mynychwyd y gwasanaethau cydaddoli dyddiol gan yr arolygwyr.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolygiad gyda'r pennaeth, y staff a'r corff llywodraethol i drafod canfyddiadau'r arolygiad.

## Atodiad 5

### Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Miss Dorothy Morris Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun, Crynodeb, Argymhellion, Atodiadau Cwestiynau Allweddol 1, 2a, 5, 6 Pynciau – Cymraeg iaith gyntaf, gwyddoniaeth, cerddoriaeth,
Mr Wat Bundock Arolygydd Tîm	Cwestiynau Allweddol 2b, 3, 4, 7 Pynciau – mathemateg, technoleg gwybodaeth, hanes
Mrs Deris Williams Arolygydd Lleyg	Cyfraniadau at gwestiynau allweddol 1, 2, 3, 4, 7
Mrs Catrin Thomas Asesydd cymheiriaid	Cyfraniadau at gwestiynau allweddol 1, 2, 3, 4, 7
Miss Ann James Pennaeth/Enwebai	Mynychu cyfarfodydd a darparu gwybodaeth

### **Cydnabyddiaeth**

***Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni am eu cydweithrediad parod trwy gydol yr arolygiad.***

### **Contractwr:**

EPPC/Severn Crossing Cyf  
Swît H, Tŷ Britannic  
Llandarsi  
Castell Nedd SA10 6JQ